## ATODLEN 2

Rheoliad 4(3)

## RHAN 2 O'R DATGANIAD CYLLIDEB

Rhaid i Ran 2 o ddatganiad cyllideb (gwybodaeth am y fformwla ddyrannu) fod yn y ffurf ganlynol ac yn unol â'r nodiadau. Rhaid cwblhau fersiynau Cymraeg a Saesneg y ffurflen.

| DATGANIAD CYLLIDEB ADDYSG A52 | | | Tabl 2: Ffactorau Ariannu | |
|---|---|---|---|---|
| BLWYDDYN | AALl | | Rhif AALl | |
| | | Rhif fersiwn y [illegible] | Dyddiad Cwblhau | |

**CYLLIDEB YSGOLION UNIGOL – FFACTORAU ARIANNU (1)**

**YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD (2)**

**Trefniadau Cyfrif Disgyblion (3)**

| |
|---|
| *Mae'r naratif i gynnwys:*<br>*Dull cyfrif disgyblion*<br>*a dyddiadau'r cyfrif* |

| Y math o ffactor a'i enw (4) | Ystod neu Lefel (5) | Gwerth yr Uned (6) £ | Niferoedd disgyblion / lleoedd (7) | Arian a Ddyrannwyd (8) £ | % o'r Cyllidebau Cynradd ac Uwchradd (9) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arian wedi'i seilio ar niferoedd disgyblion (10)** | | | | | |
| **ARIAN YN ÔL PWYSOLIAD OEDRAN (11)** | | | | | |
| *e.e. Oedran/Blwyddyn/Cyfnod Allweddol* — *Cymarebau Pwysoli (12)* | | | | | |
| *1* | | | | | |
| *2* | | | | | |
| *3* | | | | | |
| *Addysg Feithrin - wedi'i seilio ar niferoedd lleoedd* | | | | | |
| *Sixth Form Subject* | | | | | |
| | | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *(13) Dull* | **(14)** | **Cynradd** | |
| | | **Uwchradd** | |
| | | **Cyfanswm** | |

16

| Y math o ffactor a'i enw | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Niferoedd disgyblion/ lleoedd | Arian a Ddyrannwyd £ | % o'r Cyllidebau Cynradd ac Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|

**AAA - DISGYBLION Â DATGANIADAU (15)**
Pan ddefnyddir mwy nag un dull i ddyrannu arian, rhaid rhoi esboniad llawn o'r fethodoleg ar gyfer pob un.

*Band 1*
*Band 2*
*etc.*

*Dull*

**Cynradd**
**Uwchradd**

**Cyfanswm**

**AAA - DISGYBLION HEB DDATGANIADAU (16)**
Dim ond y 5% cyntaf o'r arian hwn fel cyfran o'r cyllidebau ysgol cynradd ac uwchradd y gellir ei gyfrif tuag at darged canrannol yr arian a seilir ar niferoedd disgyblion. Dylid rhoi unrhyw weddill yn (20) isod.

*Dull*

**Cynradd**
**Uwchradd**
**Cyfanswm**

**AAA - ARIAN A SEILIR AR NIFEROEDD LLEOEDD A DRINNIR FEL ARIAN A SEILIR AR NIFEROEDD DISGYBLION (17)**

*Band 1*
*Band 2*
*Etc.*

*Dull*

**Cynradd**
**Uwchradd**

**Cyfanswm**

17

**FFACTORAU ERAILL A SEILIR AR NIFEROEDD DISGYBLION (18)**

*Dull*

**Cynradd**
**Uwchradd**

**Cyfanswm**

**CYFANSWM YR ARIAN A DRINNIR FEL ARIAN A SEILIR AR NIFEROEDD DISGYBLION (19)**

**Cynradd**
**Uwchradd**

**Cyfanswm**

**ARIAN AAA GORMODOL - DISGYBLION HEB DDATGANIADAU (20)**
Unrhyw arian yn ychwanegol at yr arian cyfyngedig yn (16) uchod

*Dull*

**Cynradd**
**Uwchradd**

**Cyfanswm**

**Arian Arall (21)**

**FFACTOR ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL (22)**

*X%*
*Y%*
*Z%*

*Dull*

**Cynradd**
**Uwchradd**
**Cyfanswm**

18

| Y math o ffactor a'i enw | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Lluosydd (24) | Arian a Ddyrannwyd £ |
|---|---|---|---|---|

FFACTORAU PENODOL I SAFLE (23)

*Dull*

Cynradd
Uwchradd
Cyfanswm

FFACTORAU PENODOL I YSGOL (25)

*Dull*

Cynradd
Uwchradd
Cyfanswm

ADDASIADAU CYLLIDEB (26)
*e.e. addasiadau'r flwyddyn flaenorol*

*Dull*

Cynradd
Uwchradd
Cyfanswm

ARIAN WRTH GEFN HEB EI DYRANNU (27)

Cynradd
Uwchradd
Cyfanswm

CYFANSWM YR ARIAN SYDD AR GAEL I YSGOLION Y BRIF FFRWD (28)

Cynradd
Uwchradd
Cyfanswm 100%

19

YSGOLION ARBENNIG (29)

| Y math o ffactor a'i enw | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Niferoedd disgyblion/ lleoedd | Arian a Ddyrannwyd £ |
|---|---|---|---|---|

Arian a seilir ar niferoedd lleoedd (30)

*Dull*

Arian a seilir ar niferoedd disgyblion (31)

*Dull*

Ffactorau eraill (32)

FFACTOR ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL (33)

*Dull*

| Y math o ffactor a'i enw | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Lluosydd disgyblion/ lleoedd | Arian a Ddyrannwyd £ |
|---|---|---|---|---|

FFACTORAU PENODOL I SAFLE (34)

*Dull*

20

**FFACTORAU PENODOL I YSGOL (35)**

*Dull*

**ADDASIADAU CYLLIDEB (36)**
*Addasiadau'r flwyddyn flaenorol*

*Dull*

**ARIAN WRTH GEFN HEB EI DYRANNU (37)**

**CYFANSWM YR ARIAN SYDD AR GAEL I YSGOLION ARBENNIG (38)**

**CYFANSWM YR ARIAN SYDD AR GAEL I BOB YSGOL (39)**

**ATODIAD**

**Gwybodaeth atodol**

21

## NODIADAU I RAN 2

### CYLLIDEB YSGOLION UNIGOL — FFACTORAU ARIANNU

**1.** Mae'r nodiadau â rhif isod yn cyfeirio at yr eitemau yn y tabl sy'n dwyn y rhif cyfatebol. Pan nad yw awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw ddarpariaeth ariannol ar gyfer unrhyw fater a restrir yn y tabl rhaid rhoi sero yn y lle priodol.

Rhaid i'r tabl restru a chynnwys disgrifiad o bob ffactor a ddefnyddir gan gynnwys methodoleg lawn y ffactor. Dylid darparu'r disgrifiad hwn yn y tabl yn y blwch perthnasol sy'n dwyn y pennawd “Dull”.

### YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD

**2**

**3.** Yn y fan hon rhowch ddisgrifiad o'r dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo, o'r niferoedd disgyblion a gymerwyd o'r cyfrifiad ysgolion blynyddol, y nifer o'r disgyblion sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth ddyrannu arian drwy fformwla ddyrannu'r awdurdod.

**4.** Pennawd colofn cyffredinol ar gyfer y math o ffactor a'i enw a ddefnyddiwyd i benderfynu cyllidebau ysgol.

**5.** Yn y golofn hon (5) rhowch gyferbyn â phob ffactor yng ngholofn (4) ac mewn trefn gynyddol bob blwyddyn, grŵp oedran, grŵp blwyddyn, pwnc a addysgir neu fand yn seiliedig ar asesiad o'r angen sy'n berthnasol ac sy'n gymwys yn unol â'r fformwla ddyrannu ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, gan bennu ar wahân unrhyw gategorïau penodol ar wahân ar gyfer disgyblion mewn dosbarthiadau meithrin neu'r rhai sy'n cael eu hariannu yn ôl y pwnc a astudir. Os yw nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau meithrin wedi'u pwysoli yna rhaid i'r pwysoliadau gael eu dangos gyda nodyn i esbonio a yw'r niferoedd yn niferoedd gwirioneddol neu'n seiliedig ar rai cyfatebol

amser-llawn. Rhowch hefyd yn yr adrannau priodol o'r tabl yr ystod neu'r lefelau sy'n berthnasol i ffactorau penodol i safle a phenodol i ysgol.

**6.** Yn y golofn hon (6), gyferbyn â phob cofnod yng ngholofn (4), rhowch y swm a briodolir i bob disgybl yn y flwyddyn, y grŵp oedran, y grŵp blwyddyn, y pwnc a addysgir neu'r band yn seiliedig ar asesiad o angen.

**7.** Rhowch yn y golofn hon (7), gyferbyn â phob cofnod yng ngholofn (4)—

(a) cyfanswm nifer y disgyblion cofrestredig yn y flwyddyn, y grŵp oedran neu'r grŵp blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth yn y fformwla ddyrannu, gan anwybyddu unrhyw bwysoli; neu

(b) nifer y lleoedd, yn achos darparu lleoedd mewn ysgolion y mae'r awdurdod yn cydnabod eu bod ar gadw i blant ag anghenion addysgol arbennig, neu i blant mewn dosbarthiadau meithrin.

**8.** Yn y golofn hon (8), gyferbyn â phob cofnod yng ngholofn (4), rhowch y symiau a geir drwy luosi'r swm yng ngholofn (6) â'r rhif yng ngholofn (7).

**9.** Yn y golofn hon (9) rhowch gydgyfanswm y symiau yng ngholofn (8) wedi'i fynegi fel canran o'r swm y cyfeirir ato yn llinell (32).

**10.** Is-bennawd i'r ffactorau sy'n dyrannu'r ISB drwy gyfeirio at niferoedd y disgyblion cofrestredig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a'u hoedrannau (neu eu grŵp oedran neu'r grŵp blwyddyn y maent yn perthyn iddo), eu presenoldeb mewn dosbarth meithrin, pynciau eu hastudiaethau neu unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddynt neu yr ymdrinnir â hwy fel pe baent ganddynt at ddibenion cymhwyso'r fformwla ddyrannu, fel bod pob disgybl o fewn categori penodol yn denu symiau cyfartal ni waeth pa ysgol y mae'n ei mynychu.

**11.** Pennawd ar gyfer y cofnodion sydd i'w gwneud o dan is-adran ariannu pwysoliad-oedran y tabl.

**12.** Yn y golofn hon (12) rhowch y symiau sy'n cynrychioli'r pwysoliad a roddir yn ôl oedran (gan gynnwys cyfnod allweddol neu grŵp blwyddyn), a ddarperir addysg feithrin i ddisgybl neu'r pwnc neu'r cwrs astudiaeth yn achos disgyblion mewn chweched dosbarth.

**13.** Yn y fan hon rhowch ddisgrifiad o'r dull a ddefnyddiwyd i weithredu'r ffactor, gan esbonio amrywiadau yn lefel y ddarpariaeth y gall disgyblion neu eu hysgolion eu denu.

**14.** Yn y fan hon rhowch gydgyfanswm y rhifau yng ngholofn (7), a chydgyfanswm y symiau yng ngholofn (8), ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a rhowch gyfanswm.

### Arian AAA a seilir ar niferoedd disgyblion

**15.** Yn y golofn hon rhowch bob ffactor, sy'n berthnasol i ddisgyblion â datganiadau, sy'n dyrannu'r ISB drwy gyfeirio at niferoedd y disgyblion cofrestredig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac at unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddynt neu y maent i'w trin fel pe baent ganddynt at ddibenion cymhwyso'r fformwla ddyrannu.

**16.** Yn y golofn hon rhowch bob ffactor sy'n berthnasol i ddisgyblion heb ddatganiadau, a fyddai'n cael eu rhoi yng ngholofn (15) pe baent yn berthnasol i ddisgyblion â datganiadau.

### Arian AAA a seilir ar niferoedd lleoedd a drinnir fel arian a seilir ar niferoedd disgyblion

**17.** Yn y golofn hon rhowch bob ffactor (heblaw'r rhai y cyfeirir atynt yn nodiadau (10) i (16) uchod) sy'n dyrannu'r ISB ar sail anghenion perthnasol ysgolion unigol cynradd ac uwchradd i dynnu gwariant wrth wneud darpariaeth addysgol arbennig i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

**Arian arall a drinnir fel arian a seilir ar niferoedd disgyblion**

**18.** Yn y golofn hon (18) rhowch bob ffactor (heblaw'r rhai y cyfeirir atynt yn nodiadau (10) i (17) uchod) y dyrennir yr un arian i ddisgyblion o'r un oedran yn unol â hwy, ni waeth beth yw natur yr ysgol y maent yn ei mynychu.

**Cyfanswm yr arian cynradd ac uwchradd a drinnir fel arian a seilir ar niferoedd disgyblion**

**19.** Yn y fan hon rhowch gydgyfanswm y symiau a roddwyd yn y blychau cyfanswm yn llinellau (11), (15), (16), (17) a (18), yn unol â nodyn (14) ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac mewn cyfanswm, a chydgyfanswm y canrannau a roddir yng ngholofn (9).

**Arian AAA gormodol i ddisgyblion heb ddatganiadau**

**20.** Yn y golofn hon rhowch bob ffactor sy'n berthnasol i ddisgyblion heb ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig a fyddai'n cael eu rhoi yng ngholofn (16) uchod oni bai am effaith gyfyngu rheoliad 22(d) o Reoliadau 1999.

**ARIAN ARALL**

**21.** Is-bennawd i'r ffactorau sy'n dyrannu'r ISB drwy gyfeirio at ffactorau heblaw'r rhai hynny y cyfeirir atynt yn nodiadau (11) i (18). Rhaid i bob ffactor yn yr adran hon gael ei dyrannu i un o'r grwpiau canlynol:

anghenion addysgol ychwanegol,

penodol i safle, neu

benodol i ysgol.

**Ffactorau anghenion addysgol ychwanegol**

**22.** Yn y golofn hon (22) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau i ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol yn unol â hwy.

**Ffactorau penodol i safle**

**23.** Yn y golofn hon (23) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau i ysgolion cynradd ac uwchradd yn unol â hwy drwy gyfeirio at adeiladau neu diroedd yr ysgol.

**24.** Yn y golofn hon (24), gyferbyn â phob uned o fesur a ddisgrifir yng ngholofnau (23), (25) a (26), rhowch y nifer o unedau o dan sylw.

**Ffactorau penodol i ysgol**

**25.** Yn y golofn hon (25) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau i ysgolion cynradd ac uwchradd yn unol â hwy drwy gyfeirio at nodweddion yr ysgol.

**Addasiadau cyllideb**

**26.** Yn y golofn hon (26) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau i ysgolion cynradd ac uwchradd yn unol â hwy yn unol ag unrhyw ddarpariaethau yn Rheoliadau 1999 sy'n ymwneud ag addasiadau cyllideb. Cynhwyswch unrhyw addasiadau i adlewyrchu addasiadau ôl-weithredol yn niferoedd y disgyblion gan gynnwys disgyblion a waharddwyd.

### Arian wrth gefn heb ei dyrannu

**27.** Yn y fan hon rhowch swm y rhan honno o ISB yr awdurdod sydd wedi'i chadw mewn perthynas ag ysgolion cynradd ac uwchradd ac na chafodd ei dyrannu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Dangoswch y symiau ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a rhowch gyfanswm.

### CYFANSWM YR ARIAN SYDD AR GAEL I YSGOLION Y BRIF FFRWD

**28.** Yn y fan hon rhowch gydgyfanswm y symiau a roddwyd yn unol â nodiadau (19), (20), (22), (23), (25), (26) a (27), ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ac mewn cyfanswm.

### YSGOLION ARBENNIG

**29.** Pennawd cyffredinol ar gyfer yr ysgolion y mae'r adran hon o'r tabl yn berthnasol iddynt.

### Arian a seilir ar niferoedd lleoedd

**30.** Yn y golofn hon (30) rhowch y math o ffactor a'i enw a ddefnyddwyd i ddyrannu'r ISB i ysgolion arbennig drwy gyfeirio at y niferoedd a'r mathau o leoedd y maent yn eu darparu.

### Arian a seilir ar niferoedd disgyblion

**31.** Yn y golofn hon (31) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau i ysgolion arbennig yn unol â hwy drwy gyfeirio at y niferoedd a'r mathau o ddisgyblion yn yr ysgol.

### Ffactorau eraill

**32.** Is-bennawd i'r ffactorau sy'n dyrannu'r ISB i ysgolion arbennig heblaw drwy gyfeirio at nifer y lleoedd a ddarperir, neu nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion hynny. Rhaid i bob ffactor yn yr adran hon gael ei dyrannu i un o'r grwpiau canlynol:

Anghenion addysgol ychwanegol,

penodol i safle, neu

benodol i ysgol.

### Ffactorau anghenion addysgol ychwanegol

**33.** Yn y golofn hon (33) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau yn unol â hwy ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol.

### Ffactorau penodol i safle

**34.** Yn y golofn hon (34) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau yn unol â hwy drwy gyfeirio at adeiladau neu diroedd ysgol arbennig.

### Ffactorau penodol i ysgol

**35.** Yn y golofn hon (35) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau yn unol â hwy drwy gyfeirio at nodweddion yr ysgol.

### Addasiadau cyllideb

**36.** Yn y golofn hon (36) rhowch bob ffactor y dyrennir symiau i ysgolion arbennig yn unol â hwy yn unol ag unrhyw ddarpariaethau yn Rheoliadau 1999 sy'n ymwneud ag addasiadau cyllideb.

**Arian wrth gefn heb ei dyrannu**

**37.** Yn y fan hon rhowch swm y rhan honno o ISB yr awdurdod sydd wedi'i chadw mewn perthynas ag ysgolion arbennig ac sydd heb ei dyrannu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

**Cyfanswm yr arian a ddyrennir i ysgolion arbennig**

**38.** Yn y fan hon rhowch gydgyfanswm y symiau a roddwyd yn unol â nodiadau (30), (31), (33), (34), (35), (36) a (37).

**CYFANSWM YR ARIAN SYDD AR GAEL I BOB YSGOL (ISB)**

**39.** Yn y fan hon rhowch gydgyfanswm y symiau a roddwyd yn unol â nodiadau (28) a (38).

## ATODIAD I RAN 2

Gall awdurdod gynnwys yn yr Atodiad unrhyw wybodaeth berthnasol yn ychwanegol at yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn y tabl.